CRYNODEB EICH LLAIS CHI

AROLWG ADDYSG A DYSGU



Cyngor
Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar
Ogwr
Civic Offices,
Angel Street,
CF31 4WB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

CYMORTH IEUENCTID
BRIDGEND PEN-Y-BONT AR OGWR
YOUTH SUPPORT

TABL CYNNWYS

Y Cefndir a'r Amcanion	1
Canlyniadau'r Arolwg	3
Cwestiynau	4-16
Nodyn Clo	17

Y CEFNDIR A'R AMCANION

Yn dilyn pleidlais ‘Gwneud eich Marc’ ar draws y wlad gan Senedd yr Ifanc y DU yn 2024, nodwyd dau faes allweddol gan bobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel rhai oedd yn bwysig iddynt, a’r rhain oedd:

- Iechyd a Lles
- Addysg a Dysgu

Roedd ar Gymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr (BYS) eisiau dod i wybod mwy am sut y gallem werthuso pa mor effeithiol yw’r meysydd gwasanaeth hyn, a nodwyd fel rhai pwysig i bobl ifanc. Datblygwyd yr arolwg ‘Eich Llais Chi’ mewn cydweithrediad â Chyngor Ieuenctid Pen-y-bont (BYC), tîm Hawliau a Chyfranogiad Pobl Ifanc, a Chymorth Ieuenctid Pen-y-bont.


Yn dilyn canfyddiadau’r arolwg cychwynnol ar Iechyd a Lles yn 2004, cynhaliwyd arolwg dilynol ar Herio Bwlio yn 2025, a rannwyd gyda Chymorth Ieuenctid Pen-y-bont i lywio gwasanaethau ymhellach. Mae ein tudalen we ‘Fe Ddywedoch chi, fe Wnaethom ni!’ wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu’r camau a gymerwyd yn sgil canfyddiadau’r arolygon hyn.

Wrth wraidd ein Strategaeth Cyfranogiad Pobl Ifanc yn CBSP mae llais pobl ifanc, ac elfen allweddol o hyn yw cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio, darparu a gwerthuso ein gwasanaethau. Yn ystod 2025/2026, mae'r tîm Hawliau a Chyfranogiad Pobl Ifanc wedi cydweithio ymhellach â Chyngor Ieuenctid Pen-y-bont i gefnogi datblygu gwasanaethau Addysg a Dysgu o fewn Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont (BYS).

Mae Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu llwyfan i leisiau pobl ifanc ar draws cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr. Cydweithiodd aelodau'r Cyngor Ieuenctid â Chymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar fater Addysg a Dysgu i lunio cwestiynau yr oeddent yn teimlo oedd fwyaf perthnasol i bobl ifanc yn yr ardal. Cynigiwyd yr arolwg i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ar draws pob ysgol uwchradd, meysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth a chlybiau ieuenctid y trydydd sector, gyda'r nod o sicrhau cynrychiolaeth eang o leisiau pobl ifanc ar draws Bwrdeistref Pen-y-bont.

Nod BYS a BYC oedd gwerthuso beth oedd yn mynd yn dda a nodi unrhyw fylchau o ran anghenion pobl ifanc yn yr ardal er mwyn llywio gwasanaethau presennol BYS. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein a wyneb yn wyneb hefyd drwy gydol tymor y gwanwyn yn 2026.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am oedran, cyfnod mewn addysg, lleoliad addysg/dysgu a'r cwricwlwm, arddulliau/dulliau dysgu, cyfleoedd dysgu ychwanegol a dewisiadau o ran mynediad. Roedd y cwestiynau hefyd yn ymdrin â dysgu oedd yn digwydd y tu allan i'r ysgol ar hyn o bryd, ac a oedd y lleoliadau a ddefnyddid ar gyfer addysg a dysgu o fewn cyrraedd pawb.



CANLYNIADAU'R AROLWG

Derbyniwyd cyfanswm o 127 o atebion i'r arolwg. Rhoddwyd cyfle hefyd i bobl ifanc roi gwybodaeth drostynt eu hunain a rhoi manylion ychwanegol, er mwyn i ni fedru gwrando ymhellach ar leisiau pobl ifanc.

Cyflwynir prif themâu'r adrannau hunan-adrodd yn yr arolwg hwn yn y cymylau geiriau a'r crynodebau isod. Mae'r rhain yn cyfleu'r materion pwysicaf i bobl ifanc.


Caiff y Cyngor leuenctid gyfle i wrando ar y canfyddiadau a'u lledaenu, ac wedyn ymgynghorir â hwy am eu barn ynglŷn â'r camau nesaf.

CWESTIWN 1

BETH YW EICH OEDRAN?

12 mlwydd oed oedd mwyafrif y bobl ifanc a wnaeth ymateb i'r arolwg, sef 27%; fodd bynnag, roedd 23% o'r atebwyr yn 13 mlwydd oed.

Felly, i bobl ifanc rhwng 12 ac 13 oed yn bennaf y mae canfyddiadau'r data yn berthnasol.





Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
11	13	10.2
12	34	26.8
13	29	22.8
14	10	7.9
15	7	5.5
16	8	6.3
17	2	1.6
18	6	4.7
19	1	0.8
20	5	3.9
21	1	0.8
22	4	3.1
23	3	2.4
24	2	1.6
Gwell gen i beidio â dweud	2	1.6


127 responses · 0 skipped
Question type : Dropdown Question



CWESTIWN 2

YM MHA GYFNOD O ADDYSG YDYCH CHI?

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ysgol uwchradd, naill ai ym Mlwyddyn 8 sef 31% neu Flwyddyn 7 sef 28% o'r ymatebwyr. Y grŵp nesaf mwyaf o ymatebwyr oedd y rhai oedd 'ddim mewn addysg' sef 13%.




Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
Arall (dywedwch beth)	1	0.8
Blwyddyn 7	36	28.3
Blwyddyn 8	39	30.7
Blwyddyn 9	10	7.9
Blwyddyn 10	10	7.9
Blwyddyn 11	11	8.7
Blwyddyn 12	3	2.4
Blwyddyn 13	1	0.8
Coleg Addysg Uwch	5	3.9
Mewn prentisiaeth	2	1.6
Dim mewn addysg	16	12.6
Gwell gen i beidio â dweud	3	2.4
Cwrs Prifysgol	0	0.0
Gweithio ac astudio	0	0.0

127 responses · 0 skipped
Question type : Checkbox Question

CWESTIWN 3

RHOWCH WYBOD I NI BLE RYDYCH CHI'N DERBYN ADDYSG A HYFFORDDIANT.

Roedd y grŵp mwyaf o bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg yn mynychu Ysgol Gyfun Porthcawl (27%). Y grŵp nesaf i fwyaf oedd y rhai oedd yn mynychu Ysgol Gyfun Pencoed (24%), ac yna Ysgol Gyfun Cynffig (13%). Roedd pobl ifanc nad oeddent mewn addysg yn cyfrif am 9% o'r ymatebwyr.



Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
Arall (dywedwch beth)	3	2.4
Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath	8	6.3
Ysgol Gyfun Brynteg	5	3.9
Ysgol Gyfun Bryntirion	2	1.6
Coleg Cymunedol y Dderwen	2	1.6
Ysgol Gyfun Cynffig	16	12.6
Ysgol Gyfun Maesteg	3	2.4
Ysgol Gyfun Pencoed	31	24.4
Ysgol Gyfun Porthcawl	34	26.8
Goleg Penybont (Campws Penybont)	7	5.5
Goleg Penybont (Campws Pencoed)	1	0.8
Ysgol Bryn Castell	1	0.8
Dim mewn addysg	11	8.7
Gwell gen i beidio â dweud	3	2.4
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	0	0.0
Ysgol Heronsbridge	0	0.0
Darpariaeth Amgen y Bont	0	0.0


127 responses · 0 skipped



CWESTIWN 4

YDYCH CHI'N MEDDWL Y GELLID GWNEUD GWELLIANNAU I'R CWRICWLWM PRESENNOL?

Roedd tua hanner y bobl ifanc o'r farn y gellid gwneud gwelliannau i'r cwricwlwm presennol, gyda 52% o'r ymatebwyr yn ateb 'Ydw'. Fodd bynnag, atebodd 28% o bobl ifanc 'Na' i'r cwestiwn hwn, tra roedd 20% wedi dewis peidio ag ateb.



Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
Ydw	66	52.0
Na	36	28.3
Gwell gen i beidio â dweud	25	19.7

127 responses 0 skipped

CWESTIWN 5

BETH YDYCH CHI'N MEDDWL SYDD ANGEN EI WELLA?

Cawsom 61 o atebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r cwmwl geiriau isod yn dangos y prif feysydd blaenoriaeth yr oedd pobl ifanc yn teimlo bod angen eu gwella: sgiliau bywyd, athrawon, rheolau, mwy o gymorth, iechyd meddwl, chwaraeon, amser hamdden, cinio, dysgu sy'n ymwneud â'r byd go iawn, a dysgu rhyngweithiol.



CWESTIWN 6

BETH FYDDECH CHI'N EI NEWID O RAN ARDDULLIAU NEU DDULLIAU ADDYSGU?

Cawsom 103 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r crynodeb isod yn cyflwyno'r pwyntiau allweddol ynghylch yr hyn y byddai pobl ifanc yn ei newid o ran arddulliau neu ddulliau addysgu, a sut yr hoffent weld y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu.

Gwneud dysgu'n fwy diddorol

- Fe ddywedoch chi: Drwy gemau, gweithgareddau ymarferol, dysgu y tu allan, fideo ac addysgu rhyngweithiol.

Gwella'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion

- Fe ddywedoch chi: Drwy leihau gweiddi, dangos caredigrwydd a pharch a chynnig mwy o gymorth.

Defnyddio technoleg yn effeithiol

- Fe ddywedoch chi: Roedd llyfrau Chrome ac adnoddau digidol yn awgrymiadau poblogaidd, tra mai cymysg oedd y farn ynghylch deallusrwydd artiffisial

Dysgu personol

- Fe ddywedoch chi: defnyddio mwy o gymorth un-i-un, addysgu cynhwysol, dosbarthiadau llai, a chymryd dysgwyr niwroamrywiol i ystyriaeth.

Lleihau straen dianghenraid

- Fe ddywedoch chi: caniatáu mwy o amser i baratoi, llai o gyfnodau cadw ar ôl ysgol, egwyl amlach, ac awyrgylch mwy tawel yn yr ystafell ddosbarth.

CWESTIWN 7

YM MHA FEYSYDD YR HOFFECH CHI GAEL MWY O GYFLEOEDD DYSGU?



Cyflwynwyd rhestr o gyfleoedd dysgu i bobl ifanc ddewis o'u plith. Rhoddwyd y dewis iddynt hefyd gynnig awgrymiadau ychwanegol mewn adran ddilynol lle gallent nodi eu syniadau eu hunain.

Mae canlyniadau Cwestiwn 7 yn dangos:

Hoffai'r mwyafrif o bobl ifanc (32% o'r ymatebion).gael mwy o ddiwrnodau o brofiad gwaith.

Dywedodd pobl ifanc hefyd yr hoffent gael mwy o gyfleoedd dysgu ym meysydd sgiliau bywyd ac iaith arwyddion (y ddau ar 32%), tra bod ar 31% eisiau mwy o gyfleoedd dysgu am faterion ariannol a chyllidebu.

Y meysydd mwyaf poblogaidd nesaf ar gyfer mwy o gyfleoedd dysgu oedd troseddu a diogelwch (29%) ac iechyd meddwl – strategaethau ymdopi sylfaenol (28% o'r ymatebion).

Daeth swyddi, yr economi a budd-daliadau yn agos ar eu hôl ar 27%, ac yna Addysg Gorfforol/chwaraeon a cherddoriaeth (26% o'r ymatebion).

At hynny, dywedodd 23% o bobl ifanc yr hoffent gael mwy o gyfleoedd dysgu ym maes celf.



CWESTIWN 7

Parhad...




Your Voice - Education & Learning Survey : Survey Report for 01 January 2026 to 27 May 2026

Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
Crefft (h.y. trin gwallt, adeiladu – cewch nodi isod)	17	13.4
Cerddoriaeth	33	26.0
Sgiliau cymdeithasol	17	13.4
Celf	29	22.8
Sgiliau bywyd	41	32.3
Mae'n well gen i beidio â dweud	5	3.9

127 responses · 0 skipped
Question type : Checkbox Question

		%
Arall (dywedwch beth)	2	1.6
Iaith arwyddion	41	32.3
Materion ariannol a chyllidebu	39	30.7
ABGI (iechyd personol, cymdeithasol ac economaidd)	13	10.2
Diogelwch ar-lein (e.e. twyll, gwneud ffrindiau ar-lein yn synhwyrol)	8	6.3
Ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol	21	16.5
Iechyd meddwl (strategaethau ymdopi sylfaenol)	36	28.3
Diwrnodau profiad gwaith	46	36.2
Newyddion cyfredol yn y byd	16	12.6
Hawliau, Cydraddoldeb, Democratiaeth	15	11.8
Trosedd a diogelwch	37	29.1
Swyddi, yr economi, budd-daliadau	34	26.8
Yr hinsawdd a'r amgylchedd	20	15.7
Diwylliant, y cyfryngau, chwaraeon	19	15.0
Cludiant	14	11.0
Gwaith ieuenctid	10	7.9
Astudiaethau busnes	13	10.2
Addysg Gorfforol/chwaraeon	33	26.0



CWESTIWN 8

FE WNAETHOM GYNNIG CYFLE I BOBL IFANC ROI MWY O AWGRYMIADAU I NI YNGHYLCH Y MEYSYDD LLE YR HOFFENT GAEL MWY O GYFLEOEDD DYSGU.

Ymatebodd cyfanswm o 41 o bobl ifanc. Mae'r crynodeb isod yn cyflwyno'r prif feysydd blaenoriaeth lle yr hoffai pobl ifanc gael mwy o gyfleoedd dysgu, ynghyd ag awgrymiadau penodol gan bobl ifanc.

1. Mwy o sgiliau bywyd
Dywedodd pobl ifanc wrthym fod arnynt eisiau mwy o ddysgu sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion, gan gynnwys arian, trethi, cyflogaeth a bywyd bob dydd.

2.Mwy o archwilio gyrfaoedd
Dywedodd pobl ifanc wrthym fod ganddynt ddiddordeb mewn adeiladu, y gyfraith, ymchwilio i droseddau, gwallt a harddwch, gofal plant, cyfleoedd i gwrdd â gweithwyr proffesiynol ac ennill profiad gwaith.

3.Mwy o chwaraeon a gweithgarwch corfforol
Dywedodd pobl ifanc y byddent yn hoffi mwy o gyfleoedd mewn pêl-droed, pêl-fasged a chael gwersi Addysg Gorfforol ychwanegol.

4.Dewisiadau cwricwlwm ehangach
Gofynnodd pobl ifanc am fwy o gyfleoedd mewn drama, celfyddydau perfformio, theatr gerdd, gwleidyddiaeth ac addysg amgylcheddol.

5.Mwy o ddysgu ymarferol a seiliedig ar dechnoleg
Gofynnodd pobl ifanc hefyd am fwy o ddefnydd o lyfrau Chrome, sgiliau rhyngrwyd a dysgu creadigol, ymarferol.

CWESTIWN 9


BLE HOFFECH CHI GAEL MYNEDIAD AT Y CYFLEOEDD DYSGU HYN?

Dywedodd 76% o bobl ifanc yr hoffent gael mynediad at y cyfleoedd dysgu hyn yn yr ysgol.

Y lle mwyaf poblogaidd nesaf ar gyfer cael mynediad at y cyfleoedd hyn oedd ar-lein (modiwlau, gwersi) ar 33%. Dilynwyd hyn gan glybiau ieuenctid, gyda 23% o'r ymatebion.

Dywedodd pobl ifanc hefyd yr hoffent gael mynediad at gyfleoedd dysgu gartref (20.5%), mewn sesiynau cymorth un-i-un (18%), a dywedodd 16.5% yr hoffent gael mynediad at y cyfleoedd hyn mewn grŵp.

Dywedodd 13% o bobl ifanc yr hoffent gael mynediad at y cyfleoedd dysgu hyn ar eu pen eu hunain, tra teimlai 11% fod arnynt eisiau cael mynediad atynt yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd yn well gan 6% beidio â dweud.



Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
Ysgol	96	75.6
Cartref	26	20.5
Ar-lein (modiwlau, gwersi)	42	33.1
Clybiau ieuenctid	29	22.8
Yn ystod gwyliau'r ysgol	14	11.0
Mewn grŵp	21	16.5
Ar eich pen eich hun	16	12.6
Cymorth un-i-un	23	18.1
Well gen i beidio â dweud	8	6.3

127 responses · 0 skipped
Question type : Checkbox Question


CWESTIWN 10

PA ADDYSG A DYSGU YDYCH CHI'N EI GAEL Y TU ALLAN I'R YSGOL AR HYN O BRYD?

Cawsom 90 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r darlun isod yn tynnu sylw at beth mae pobl ifanc yn ei gael o ran addysg a dysgu y tu allan i'r ysgol ar hyn o bryd a ble.

C10. Pa addysg a dysgu ydych chi'n ei gael y tu allan i'r ysgol ar hyn o bryd?


"Dysgu trwy'r sgrin – Mae pobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol byd-eang yn helaeth a llwyfannau digidol hunangyfeiriedig i ddysgu sgiliau newydd yn annibynnol."



"Dysgu egnïol ac yn yr Awyr agored – Mae chwaraeon, parciau lleol, a gweithgareddau corfforol yn Ffynhonnell enfawr o gysylltu a datblygu y tu allan i'r ystafell ddosbarth."



"Cysylltiadau cymunedol – Mae darpariaethau ieuenctid lleol a sefydliadau ieuenctid strwythuredig yn cynnig mannau hanfodol ar gyfer dysgu rhyngweithiol a chefnogaeth gan gymheiriaid."



"Mynegiant creadigol – Mae perfformio a'r celfyddydau gweledol yn darparu lle hanfodol i ieuenctid lleol feithrin hyder a doniau arbenigol."



"Y Bwlch Cyfranogi – Dywedodd Nifer sylweddol o ymatebion 'Dim byd' neu 'Dim' yn syml, gan amlygu grŵp mawr o bobl ifanc nad ydynt yn dysgu'n ffurfiol neu mewn ffordd strwythuredig y tu allan i oriau ysgol."



"Desg ysgol estynedig – Mae addysg ffurfiol yn croesi i fywyd cartref drwy lwyfannau gwaith cartref digidol a thiwtora preifat."




CWESTIWN 11

YDYCH CHI'N TEIMLO BOD EICH LLEOLIAD ADDYSG A DYSGU O FEWN CYRRAEDD I BAWB?

Teimlai'r mwyafrif o bobl ifanc – ar 75% ohonynt – bod eu lleoliad addysg neu ddysgu o fewn cyrraedd i bawb.

Teimlai 14% nad oedd eu lleoliad addysg a dysgu o fewn cyrraedd i bawb. Dewisodd 11% beidio ag ateb.

Cafodd pobl ifanc hefyd ddewis i ddefnyddio adran hunan-adrodd ddewisol er mwyn rhoi mwy o fanylion am awgrymiadau ar gyfer gwelliannau (C12).



Dewisiadau'r cwestiwn	Ymatebion	%
Ydw	95	74.8
Na	18	14.2
Gwell gen i beidio â dweud	14	11.0

127 responses · 0 skipped
Question type : Radio Button Question


CWESTIWN 12

BETH YDYCH CHI'N MEDDWL Y GELLID EI WELLA?

Cawsom 77 o ymatebion gan bobl ifanc i'r cwestiwn hwn. Mae'r darlun isod yn tynnu sylw at yr awgrymiadau gan bobl ifanc ar gyfer gwelliannau.

C12: Beth gellid ei wella?

GLASBRINT Y MYFYRWYR AR GYFER NEWID



Neuaddau a drysau – hygyrchedd corfforol

- "Dydy 5 munud rhwng gwersi ddim yn hir i bobl ar faglau yn ogystal â defnyddwyr cadeiriau olwyn."
- "Mae ystafelloedd dosbarth hawdd eu cyrraedd yn brin oherwydd rhwystrau o ran y llawr a gosodiad y byrddau."
- "Mae arnom amgen mwy o lethrau ar gyfer defnyddwyr anabl."



Yr ystafelloedd dosbarth – Addysgu ac Offer

- "Newid y gwaith ysgol ei hun fel bod pawb yn medru deall (defnyddio ffont dyslecsia)."
- "Mwy o wersi rhyngweithiol a hwyliog."
- "mwy o fynediad at lyfr Chrome ar gyfer gwaith cartref ac ymchwil."
- "mae angen i athrawon roi cyfarwyddiadau cliriach a rhoi'r gorau i weiddi."



Y Cantîn – Colli Amser

- "Datrys problem ciwiau amser cinio - maen nhw'n cymryd ein hegwyl a'n hamser cinio ni i gyd."
- "Gwahardd gwthio a hergydio yn y llinell ginio."
- "Gwneud yr egwyl yn hirach."



Y Ganolfan Gymorth - Lles a straen

- "Mae arnom angen dealltwriaeth well o iechyd meddwl a llai o straen ar gyfer TGAU."
- "Gwneud mwy o ymdrech i gysylltu gyda myfyrwyr sy'n cael amser caled."
- "Dod â chyflogwyr i mewn i ddangos cyfleoedd yn y dyfodol."



Giatiau'r Ysgol – Diwylliant a Diogelwch

- "Gwneud amgylchedd mwy diogel: addysgu pobl ynghylch bwlio, aflonyddu, rhywiaeth a hiliaeth."
- "Mae fepio yn dal yn broblem amlwg sydd angen ei thrin."
- "Rhoi'r gorau i wahardd ffonau."




Y Toiledau

- "Cywiro'r sefyllfa gyda'r toiledau – mae gormod o bobl yn mynd i mewn dim ond i'w dinistrio."



NODYN CLO



Dros dymor yr haf 2026, fe wnaeth tîm Hawliau a Chyfranogiad Pobl Ifanc yng Nghymorth Ieuenctid Pen-y-bont gynnal pleidlais ‘Codwch eich Llais’ ar draws yr holl ysgolion, colegau a chlybiau ieuenctid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Fe wnaeth canlyniadau’r bleidlais benderfynu mai prif bynciau’r arolwg nesaf fydd yn siapio ein prosiect Eich Llais Chi ymhellach fyddai: Iechyd a Lles a Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Bydd ein tudalen ‘Fe Ddywedoch Chi, fe Wnaethom ni!’ ar y we yn dal i gael ei diweddaru â’r camau y bydd Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont wedi eu cymryd i adlewyrchu canfyddiadau prosiect Eich Llais Chi.



ANGEN CYMORTH?

Sganiwch y cod QR hwn am amrywiaeth o wybodaeth a gwasanaethau i’ch cynorthwyo gyda Iechyd Meddwl a Lles, Herio Bwlio ac Addysg a Dysgu, p’un a fyddwch yn dewis cymryd rhan neu beidio.

SCGANIWCH FI